

## **Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a Gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 dros Microsoft Teams**

### **Yn bresennol:**

#### **Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) a oedd yn bresennol:**

Peter  
Price, Cadeirydd  
Dr Norma Barry  
Mr Alan Gardner  
Dr Philip Hollington  
Mr Ronnie Alexander  
Mr David Peace

#### **Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

Julie Pierce – Cyfarwyddwr Bod yn Agored, Digidol, Data, Gwyddoniaeth a Chymru  
Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a'r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol  
Kerys James Palmer – Pennaeth Polisi Rheoleiddio  
Helen George – Pennaeth Cyfathrebu a Chymorth Busnes  
Lucy Boruk – Rheolwr Busnes

### **Arsylwr:**

Matthew Frankcom – Cadeirydd Grŵp Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW)

## **1. Cyflwyniadau**

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Beca Lyne-Pirkis a Nathan Barnhouse, Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru.

## **2. Datganiadau o fuddiannau**

2.1 Cynghorodd Beca Lyne-Pirkis mewn gohebiaeth ei bod hi wedi bod yn gweithio gyda 'Porth i'r Plât', ac wedi ysgrifennu, tynnu lluniau a ffilmio nifer o ryseitiau i helpu i hyrwyddo bwyd môr Cymru dros dymor yr ŵyl.

2.2 Dywedodd Norma Barry y byddai angen i'w datganiadau adlewyrchu nad yw hi bellach ar Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.

2.3 Dywedodd David Peace ei fod yn Gadeirydd HallMark Africa Limited.

## **2.4 Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i ddiweddarau'r Datganiadau ar y wefan**

## **3. Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf (Papur FSA 20/11/01)**

- 3.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020 yn gywir.
- 3.2 Cadarnhaodd yr ysgrifenyddiaeth yr ymdriniwyd â'r holl bwyntiau gweithredu.

#### **4. Adroddiad y Cadeirydd (Papur FSA 20/11/02)**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a oedd yn crynhoi'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Nodwyd bod y Cadeirydd wrthi'n gweithio trwy gyfres o sesiynau ymsefydlu (*induction*) gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

4.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n bresennol yn nigwyddiad Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a Sgiliau Bwyd Cymru (Ffair Aeaf Sioe Frenhinol Cymru ar-lein) ar 1 Rhagfyr 2020. Mae'r digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar wella gwytnwch busnes a rheoli risg.

4.3 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai Eluned Morgan (AS) yw'r Gweinidog newydd sydd bellach yn gyfrifol am gyflwynu'r ASB a dywedodd ei fod yn gobeithio cael cyfle i siarad â'r Gweinidog cyn hir.

4.4 Wrth ddiweddarau'r Pwyllgor ar drefniadau ar gyfer recriwtio aelodau ychwanegol i'r Pwyllgor, fe wnaeth y Cadeirydd annog aelodau i rannu'r hysbyseb sydd o fewn eu rhwydweithiau.

4.5 Wrth ystyried yr adran sy'n adrodd ar gyfarfod Bwrdd yr ASB a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, nododd aelodau fod cyfarfodydd Bwrdd yr ASB ers mis Mawrth 2020 wedi'u rhannu'n dri math – cyfarfodydd gweithdrefnol, cyfarfodydd polisi a strategaeth, a chyfarfodydd busnes. Nodwyd bod cofnodion holl gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu rhoi ar wefan yr ASB er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw – gweler <https://www.food.gov.uk/about-us/our-board>. Nodwyd hefyd bod disgwyliad parhaus y byddai'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon yn cyfrannu at bob cyfarfod polisi a strategaeth, gan sicrhau bod y safbwyntiau ehangach hyn yn cael eu hystyried yn nhrefnadaethau'r Bwrdd.

#### **5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSA 20/11/03)**

5.1 Cafodd yr aelodau adroddiad ysgrifenedig y Cyfarwyddwr yng Nghymru. Cyflwynwyd hwn gan Owen Lewis ar ran y Cyfarwyddwr. Mewn diweddariad llafar i'r papur, hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor fod cyfarfod mis Rhagfyr y grŵp Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW) wedi'i ohirio tan 2021 oherwydd bod nifer o aelodau'r grŵp yn gweithio ar yr ymateb i COVID. Cadarnhaodd Matthew Frankcom, fel Cadeirydd SSAFW, y byddai pwysau ar awdurdodau lleol wedi gwneud cyfarfod mis Rhagfyr yn anodd.

5.2 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau awdurdodau lleol yng Nghymru yn adrodd am anawsterau wrth ymateb i'r ymgynghoriad arfaethedig ar God Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru gan fod eu hadnoddau wedi dod o dan straen mawr wrth ddelio â phandemig COVID-19. Nododd Owen Lewis ei bod yn hanfodol bod yr ymgynghoriad yn cychwyn gan fod llawer o'r cynnwys yn y ddogfen ymgynghori wedi'i gynllunio i leihau peth o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol. At hynny, nododd fod angen ymgymryd â'r gwaith hwn gan ragweld y byddai Mannau Rheoli ar y Ffin (BCPs) yn cael eu hadeiladu yng Nghymru ar gyfer Gorffennaf 2021 yn barod ar gyfer cyflwyno rheolaethau mewnforio Glanweithdra a Ffytoiechydol (SPS) yn raddol (fel y'u cyhoeddwyd ym Model Gweithredu ar y Ffin Llywodraeth y DU.)

Nodwyd y gallai unrhyw oedi wrth lansio'r ymgynghoriad olygu gwrthdaro gyda'r cyfyngiadau cyn yr etholiad. O ystyried y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyn o bryd, hysbyswyd y Pwyllgor fod yr ASB yn archwilio ystod o opsiynau arloesol i alluogi ymgynghoriad ystyrion ac i ganiatáu i awdurdodau lleol ymateb yn y ffordd orau. Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i fod yn sensitif i'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd.

5.3 Nodwyd nad oedd manylion canlyniadau cyfleoedd ymgysylltu arferol y Cyfarwyddwr yn yr adroddiad. Nododd Julie Pierce fod hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr o ran cynllunio ar gyfer y gaeaf.

## **6. Diweddariad ar y Rhaglen Gorsensitifrwydd i Fwyd (Papur FSA 20/12/04)**

6.1 Croesawodd y Pwyllgor y papur a chymeradwyo gwaith y tîm Gorsensitifrwydd i Fwyd a Pholisi.

6.2 Yn ei sylwadau penodol, croesawodd y Pwyllgor y cyfoeth o wybodaeth a ddarperir yn y papur gan dynnu sylw at y canlynol:

- dylai unrhyw wybodaeth i ddefnyddwyr am ddiogelwch alergeddau fod yn hygyrch i bawb (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn defnyddio offer digidol) ac y dylai fod ar gael yn Gymraeg yng Nghymru.
- mae'r papur yn ategu gwaith a chryfder busnes o ran cysyniad alergeddau;
- efallai y bydd angen sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol er mwyn rhoi'r cynllun newydd ar waith;
- roedd pryderon yn ymwneud â 'gordddefnyddio' labeli alergeddau rhagofalus (*precautionary allergy labelling*); a
- mewn perthynas ag atodiad 3 – yr adolygiad tystiolaeth ar gynlluniau gwybodaeth i ddefnyddwyr (i lywio gwaith ar gynllun diogelwch alergeddau bwyd) – byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth barhaus gan yr Asiantaeth ar agweddau defnyddwyr o arolygon yr ASB gan gynnwys Bwyd a Chi a'r cronfa ddata tracio agweddau defnyddwyr. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion ar b'un a fydd cyfraddau tloidi neu allgáu digidol (*digital exclusion*) yng Nghymru yn cael eu hystyried o'i gymharu â gweddill y DU.

## **6.3 Cam gweithredu: Parhau i rannu gwybodaeth am agweddau defnyddwyr â'r Pwyllgor**

## **7. Diweddariad ar Raglen Bontio'r Undeb Ewropeaidd (UE) (Papur FSA 20/12/03)**

7.1 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad yn diweddar ar Raglen Bontio'r UE a chytunwyd ar y cynigion a amlinellir yn y fframwaith safonau ar gyfansoddiad a labelu bwyd.

7.2 Yn ei ystyriaethau, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- pryderu am oedi posibl yng Nghaergybi a'r pwysau ar seilwaith yn yr ardal honno yn benodol;
- bod Cynllun Gweithredu'r Ffin (BOM) yn gymhleth ac yn darparu ar gyfer cyflwyno gwiriadau a rheolaethau fesul cam ar ôl y Cyfnod Pontio;

- pryderu am y potensial ar gyfer twyll/troseddau bwyd, yn enwedig pan fydd llwythi wedi'u grwpio;
- pryderon hefyd o ran allforio porc ffres/bwydydd organig/cynnyrch maes (*free range*); a
- croesawu'r dull i sicrhau nad yw diogelwch bwyd yn cael ei danseilio trwy unrhyw drafodaethau masnach, gan nodi bod yr ASB yn cymryd rhan mewn sgysiau perthnasol gyda Llywodraeth Cymru a gyda Llywodraeth y DU.

7.4 Nododd y Pwyllgor gyfraniad yr ASB yng Nghymru yn natblygiad dros dro y Fframwaith Cyffredin Cymru ar Safonau Cyfansoddiad a Labelu Bwyd a hysbyswyd y Pwyllgor bod yr Offeryn Statudol yn destun dadl gadarnhaol yn y Senedd ar 15 Rhagfyr 2020.

7.5 Gorffennodd y Pwyllgor ei sylwadau trwy nodi ei fod yn fodlon â'r ffordd y bydd y Fframweithiau'n gweithredu gan ganmol yr Asiantaeth am y cydweithio a oedd wedi digwydd.

## 8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 14 Ionawr 2021 yn cael ei ohirio tan 4 Chwefror i alluogi'r Pwyllgor i barhau â'i drafodaethau ar y dirwedd fwyd yng Nghymru o safbwynt un mis ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Amlinellodd y Cadeirydd agenda dros dro ar gyfer y cyfarfod. Cadarnhaodd y Cadeirydd hefyd y byddai'r cyfarfod nesaf wedi hynny yn cael ei gynnal ar 4 Mawrth ac y byddai hwn yn gyfarfod i drafod yr agenda ar gyfer cyfarfod polisi'r Bwrdd ar 10 Mawrth.

8.2 Wrth gynllunio ymlaen llaw, nododd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor archwilio materion diogelwch a safonau bwyd sy'n gysylltiedig â thlodi bwyd yn ddiweddarach yn 2021 ond, wrth wneud hynny, roedd yn hanfodol bod dealltwriaeth o ffiniau cylch gwaith yr ASB mewn perthynas â thlodi.

8.3. Nodwyd na fyddai Ronnie Alexander yn gallu dod i'r cyfarfod ar 4 Mawrth 2021.

8.4. Nodwyd bod y papurau a ystyriwyd yn y cyfarfod penodol hwn yn cynnwys llawer o acronymau. Cytunwyd y byddai rhestr o acronymau cyffredin yn cael ei llunio.

**8.5 Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau agenda ar gyfer cyfarfod 4 Chwefror. Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i greu rhestr o acronymau**